GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Gwybodaeth am frechiadau plant

**Brechu yw'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud i'n diogelu ni a'n plant rhag salwch, ac i atal lledaenu heintiau.**

**Gall yr amserlen hon eich helpu i gadw golwg ar ba frechiadau sy'n ddyledus i'ch plentyn a phryd y mae angen iddo eu cael.**

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn ymweld yn fuan ar ôl genedigaeth eich plentyn, a bydd yn rhoi gwybodaeth a chyngor am frechiadau plentyndod i chi.

## 0-4 oed

Bydd eich plentyn yn cael gwahoddiad i gael brechiadau rheolaidd yn **8 wythnos, 12 wythnos, 16 wythnos, 12 mis oed**, ac yn fuan ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Bydd hefyd yn cael cynnig brechlyn ffliw o 2 oed



## Oedran cynradd

Bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechlyn ffliw yn y trwyn drwy gydol yr ysgol gynradd, o **ddosbarth derbyn hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 6**



## Oedran uwchradd

Bydd plant yn parhau i gael cynnig brechlyn ffliw drwy gydol yr ysgol uwchradd, hyd at a gan gynnwys **Blwyddyn 11**

## 12 - 13 oed

Rhwng **12** a **13 mlwydd oed** bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechlyn HPV, sy'n cael ei roi mewn dau ddos rhwng chwe mis a dwy flynedd ar wahân

## 13 - 14 oed

Rhwng **13** a **14 mlwydd oed**, bydd eich plentyn yn cael cynnig ei frechiad atgyfnerthu i bobl ifanc yn eu harddegau, sef y brechiad MenACWY, sy'n amddiffyn rhag pedwar achos gwahanol o lid yr ymennydd a septisemia. **Gellir rhoi unrhyw frechiadau plentyndod sydd heb eu rhoi ar yr adeg hon.**



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Ffeithiau am y brechlynnau:

## Maen nhw yn:

- ✓ Amddiffyn eich plentyn rhag llawer o glefydau difrifol a allai fod yn farwol
- ✓ Diogelu eraill yn eich teulu a'ch cymuned
- ✓ Cael profion diogelwch trylwyr
- ✓ Achosi weithiau sgil effeithiau ysgafn na fydd yn para'n hir - gall rhai plant deimlo ychydig yn sâl neu fod ganddynt boen yn y fraich am 2 neu 3 diwrnod

## Dydyn nhw ddim yn:

- × Achosi awtistiaeth - nid yw astudiaethau wedi canfod unrhyw gysylltiad rhwng y brechlyn MMR ac awtistiaeth
- × Gorlwytho neu wanhau'r system imiwnedd - mae'n ddiogel i roi nifer o frechlynnau ar yr un pryd ac mae hyn yn lleihau nifer y pigiadau
- × Achosi alergeddau nac unrhyw gyflyrau eraill
- × Cynnwys unrhyw gynhwysion sy'n achosi niwed mewn symiau mor fach - ond siaradwch â'ch meddyg os oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau hysbys fel wyau, neu rydych yn dymuno osgoi cynhyrchion gelatin

Ble mae brechiadau'n cael eu rhoi?
**Rhai yn eich meddygfa, rhai yn ysgol eich plentyn.**

Sut bydda i'n gwybod pryd mae fy mhlentyn i fod i gael brechiadau?
**Anfonir llythyr neu neges destun atoch, neu fe'ch gelwir i'ch atgoffa pan fydd eich plentyn angen ei frechu.**

Beth os yw fy mhlentyn wedi methu brechiadau?
**Mae'n well cael brechlynnau ar amser, ond nid yw byth yn rhy hwyr. Gellir rhoi'r rhan fwyaf o frechlynnau yn ddiweddarach o hyd.**

**Cysylltwch â'ch meddygfa yn yr achosion canlynol:**

- Mae'ch plentyn wedi methu unrhyw frechiadau.
- Mae gan eich plentyn apwyntiad brechu na allwch fynd iddo, gallant aildrefnu apwyntiad ar eich cyfer

Os hoffech ragor o wybodaeth siaradwch â'ch Meddyg, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ymarfer neu ffoniwch **Iechyd Plant ar 02921 836928.**

**Am fwy o wybodaeth ewch i** cavuhb.nhs.wales/patient-advice/local-public-health-team/key-areas-of-focus/immunisations/childhood-immunisations/ **neu sganiwch y cod QR hwn gyda'ch ffôn i agor y wefan**

**Dyw hi byth yn rhy hwyr i gael y brechlynnau sydd eu hangen.**